



PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP

Datganiad o Arwyddocâd

Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

Quarry workers (courtesy Penmaenmawr Museum)

Datganiad o Arwyddocâd Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

Mae rhai o'r traddodiadau mynydd lleol cryfaf yn ymwneud â da byw ffermio a'i gylch blynyddol o weithgarwch gan gynnwys wyna, cneifio a hel defaid. Yn ystod prosiect peilot hanes llafar a gynhaliwyd gan Lois Jones yn ystod y cyfnod datblygu, cynhaliwyd tri chyfweiliad gyda ffermwyr yn ardal Abergwyngregyn a Llanllechid sydd yn eu 70au a'u 80au; darperir manylion llawn fel adroddiad ychwanegol. Roedd themâu cyffredin y drafodaeth yn cynnwys: cysylltiadau teuluol ar draws y mynyddoedd; newidiadau mewn amaethyddiaeth; corlannau; sefydlu a chynnal cynefinoedd y diadelloedd yn y mynyddoedd; agweddau cymdeithasol ar ffermio; cneifio; clustnodi ac enwau lleoedd. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn Gymraeg.

Mae hel a didoli diadelloedd o ddefaid ar dir mynydd agored angen cydweithio a chydgyssylltu rhwng llawer o ffermwyr a thirfeddianwyr gwahanol. Mae hel defaid yn digwydd deirgwaith y flwyddyn; dechrau'r haf ar gyfer cneifio, diwedd yr haf i wahanu'r wŷyn ar gyfer y farchnad, a'r hydref i ddod â'r stoc i lawr o'r mynydd. Mae yna batrwm traddodiadol sy'n gweld yr helfa'n cychwyn ar dir comin Dyffryn Conwy ac yna'n gweithio'i ffordd o amgylch y Carneddau yn wrthglocwedd o'r gogledd ddwyrain trwodd i Ddyffryn Ogwen dros gyfnod o ddyddiau. Roedd yr helfa'n rhan o'r holl gyfweiliadau.

"Mae gennym ni ddau gyfnod hel defaid mewn ffordd, fel arfer rydyn ni'n hel nhw ar ddydd Gwener a dydd Llun ac yna mae yna helfa arall drannoeth ym Muarth Newydd i fyny'r top yna, yna Llanllechid yn hel ... Wel Llanfairfechan sy'n hel gyntaf, wel mae'n dechrau ym Mhenmaenmawr a dweud y gwir, yna Llanfairfechan, yna Aber, mae'n gweithio'n iawn. Mae pawb yn helpu ei gilydd.

Mae gennym ni ddwy gorlan, tair, pedair i gyd gyda'i gilydd, roedd dwy yn Anafon, mae un yn Cwm ac un arall yn y Buarth Newydd. Roedd yna un gorlan fawr yn y canol ac wedyn roedd gan bawb eu

corlan ar wahân eu hunain. Byddai gan y bugail 'gorlan' i gadw'r defaid twyllodrus."

Disgrifiodd un o'r cyfweleion y tro cyntaf iddo gymryd rhan mewn hel defaid o'r mynyddoedd uchel pan yn blentyn.

"Rwy'n sôn am gyfnod o gwmpas tua dechrau'r 60au, rhwng 63 a 65 rhywbeth felly, pan oeddwn yn dechrau cerdded i fyny. Dwi'n cofio mynd i'm helfa gyntaf dwi'n meddwl mod i tua 10 oed ac wedi cael pâr o sgidiau hoelion mawr fel oedd y ffasiwn y dyddiau hynny ar bob fferm! A cherddais yr holl ffordd i fyny o Chwillan [Cochwillan], codi am 3am a cherdded i fyny ar draws caeau ffermydd eraill tuag at y mynydd a dal ati i fyny i gyfeiriad Moel Wnion ac ar draws wedyn tuag at Drwsgwl Bach ac i fyny heibio Cwt Jacob a Bere Mawr. Dydw i ddim yn cofio faint o amser gymerodd hi ond coeliwch chi fi, roeddwn i wedi blino pan gyrhaeddais adref! Rwy'n cofio mor dda. Wrth gwrs, doedd gen i ddim ci bryd hynny, ond roedd gan fy nhad a fy mrawd gi yr un. Ia, hel y defaid ac yna dod i lawr a didoli nhw i gyd. Mae hynny'n nodweddiadol o'r holl gynulliadau yn y Carneddau a llawer o ardaloedd eraill dwi'n meddwl, y math yna o drefn."

Mae llawer llai o bobl yn hel defaid heddiw ac mae beiciau cwad a cherbydau 4x4 wedi gwneud rhywfaint o'r gwaith yn haws, ond yr unig ffordd i gyrraedd llawer o ardaloedd yn y tir mynyddig garw yw ar droed. Mae cŵn medrus a thrinwyr profiadol yn hanfodol, gyda thimau o gŵn yn cydweithio i fynd dros ardaloedd mawr o dir.

Yn draddodiadol roedd clustiau defaid mynydd yn cael eu rhicio fel bod modd eu cysylltu â'u fferm. Mae yna hen lyfrau o'r marciau, sy'n caniatáu i ffermwyr adnabod dafad strae, er y byddant yn gwybod y rhan fwyaf o batrymau ar gof. Mae'r traddodiad yn dal i fod yn fyw er bod yna dagiau plastig hefyd heddiw.

Datganiad o Arwyddocâd Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

Roedd cneifio yn gynnar yn yr haf yn arfer bod yn ddigwyddiad cymunedol mawr, ond gyda mecaneiddio a chwypm yng ngwerth gwlan, mae hyn wedi newid.

"Yn yr hen ddyddiau byddai pob fferm yn helpu ei gilydd ond rwan rydyn ni'n gwneud y cneifio ein hunain, mae'r bechgyn yn gwneud y cneifio ac mae un yn dod allan i helpu, ond roeddech chi'n arfer cael cinio... Gormod o ginio a dweud y gwir! Roedd cneifio yn eithaf anodd wedyn! Nid oes unrhyw ddiwrnod cneifio heddiw mor fawr ag yr oedd ers talwm."

Roedd gwneud gwair yn ddigwyddiad cymdeithasol mawr arall yn cynnwys llafur cymunedol sydd wedi dirywio gyda dyfodiad gwneud silwair a pheiriannau newydd, er mawr ofid i'r cyfweleion.

"Mae'r hwyl wedi mynd ohono rwan, y tynnu coes a'r chwarae triciau, ydy, mae wedi mynd. Wrth hel gwair, yn fy amser i, byrnau gwair bach a byddai pawb yn eu gwneud gyda'u byrnwr eu hunain, roedden ni'n arfer gwneud 7,000 o fyrnau bach o wair yma. Roedd bechgyn ysgol yn arfer dod lawr i gynnig help a byddwn i'n dweud 'Duw ie, dowch lawr heno, mae yna lawer o waith cario!'...byddent i gyd yn dod i'r tŷ am swper – wel! Am hanner nos, byddai'n rhaid i ni eu hanfon nhw i gyd adref – roedd rhaid codi am 6 i odro'r gwartheg! Roedd hi fel Noson Lawen yn y tŷ yma. Mae'r amser hwnnw wedi mynd heibio, does neb yn dod i lawr yma i gynnig help bellach, neb."

Mae enwau lleoedd a roddir i'r lleoliadau yn y dirwedd dros y cenedlaethau, yn yr iaith Gymraeg wrth gwrs, yn aml yn adlewyrchu digwyddiadau, gweithgareddau a chysylltiadau. Adroddodd un o'r cyfweleion y stori ganlynol am Faen Cwrw ar Gomin Llanllechid:

"Oherwydd bod stad [Penrhyn] yn arfer cerdded y ffiniau ac roedden nhw'n dod lawr at y garreg yma a staff o'r castell yn dod i fyny ar fulod gyda chasgenni cwrw a bwyd iddyn nhw...Maen cwrw! Dyna fel y bu."

Mae enwau caeau fferm ger Llanllechid yn cynnwys cae bychan o'r enw 'Cae Ffeltiwr', lle bu gwneuthurwr hetiau ffelt yn byw ar un adeg.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru wedi cynnal diwrnod mapio ar gyfer enwau lleoedd Dyffryn Ogwen ym Methesda a greodd gryn ddiddordeb yn lleol ac a gofnododd lawer o enwau nad oedd cofnod iddyn nhw, gan gynnwys enwau'r pysgotwyr ar rannau o'r afonydd a'r pyllau. Yn Nant y Benglog, credir bod 'Waun Fflogyn' yn cyfeirio at gysylltiad hanesyddol â Chyffyllog, aderyn a gafodd ei hela am ei gig a'i blu ac a ddefnyddiwyd gan bysgotwr lleol. Mae enwau lleoedd ar fapiau hanesyddol a chyfredol yr Arolwg Ordians yn dweud llawer wrthym am weithgareddau a chynefinoedd y gorffennol, er enghraifft mae enwau hafod yn gyffredin yn yr ucheldiroedd ac (yn bennaf) yn ymwneud â hen anheddau a phorfeydd ucheldirol yr haf. Trafododd Ieuan Wyn enwau lleoedd Dyffryn Ogwen yn ei sgwrs i'r Gymdeithas Enwau Lleoedd, 'Mae'r Mynyddoedd yn Siarad', ac mae yma sgrïpt o'r sgwrs fel dogfen ategol. Mae'r gwaith hwn yn dangos bod cyfoeth gwybodaeth leol am enwau lleoedd yn y tirweddau yn mynd y tu hwnt i'r rhai ar fapiau. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth leol am enwau lleoedd wedi'i chofnodi na'i dehongli yn yr un modd ar gyfer ardaloedd eraill y Carneddau.

Roedd y ffeiriau a'r marchnadoedd a gynhaliwyd yn y Carneddau a'r cyffiniau, yn gysylltiedig â'r calendr amaethyddol (ffeiriau llogi gweision a chynnyrch) neu wyliau crefyddol, yn ddigwyddiadau cymunedol o bwys yn hanesyddol. Mae tref Conwy wedi cadw ei Ffair Fêl sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod Canoloesol. Hyd at yr 1960au, gwerthwyd merlod y Carneddau yn ffeiriau hydref Llanllechid a Phorthaethwy a thra bod yr arferiad hwn wedi dod i ben, mae ffair flynyddol yn Llanllechid wedi goroesi fel atgof o'r arferiad hwn o'r gorffennol. Dywedir bod carnifal blynyddol Rowen yn tarddu o ffair yn ymwneud â masnach y porthmyn. Ond gellid ystyried digwyddiadau newydd, megis sioe amaethyddol hirsefydlog Dyffryn Ogwen a gŵyl fwy diweddar Afon Ogwen ym Methesda fel fersiwn ddiweddarach o'r digwyddiadau cymunedol hyn.

Am o leiaf y chwe mileniwm diwethaf, mae tirwedd y Carneddau wedi'i ffurfio gan y berthynas newidiol rhwng pobl a'r amgylchedd dros amser. Yn ei dro mae'r dirwedd wedi dylanwadu ar gymeriad cymunedau'r ardal ac wedi darparu ysbrydoliaeth ar gyfer creadigrwydd, dychymyg a

Datganiad o Arwyddocâd Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

chynrychiolaeth.

Mae'r artistiaid Brenda Chamberlain, Kyffin Williams, J.M.W. Turner a John Piper wedi'u trafod yn y disgrifiadau o ardaloedd cymeriad tirwedd, ac mae leuan Wyn wedi rhestru deg ar hugain o artistiaid sy'n gysylltiedig â'r ardal (gweler y ddogfen ategol).

Mae gan y Carneddau draddodiad llenyddol cryf, a adolygwyd ar gyfer y prosiect gan leuan Wyn fel y trafodwyd yn adran cymeriad tirwedd y CGGD a'i gyflwyno'n fanwl mewn adroddiad ategol. Ymysg y farddoniaeth gynharaf, mae barddoniaeth beirdd y 15fed a'r 16eg ganrif a noddwyd gan deuluoedd bonheddig yr ardal (yn gydnabyddiaeth am y mawl mewn cerddi) megis Cochwillan, Coetmor a'r Penrhyn. Mae llawer o feirdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at yr unfed ganrif ar hugain wedi tynnu ar y Carneddau fel nodwedd neu ysbrydoliaeth yn eu gwaith, nifer ohonynt yn ennill Coron Farddol mewn Eisteddfodau Cenedlaethol. Mae pedwar Prifardd (yr anrhydedd uchaf a ddyfernir gan yr Eisteddfod Genedlaethol) wedi eu geni a'u magu yn Nyffryn Ogwen.

Mewn rhyddiaith, ceir nifer o weithiau pwysig, gan gynnwys un o'r arweinlyfrau cynharaf i un mynydd a ysgrifennwyd mewn unrhyw iaith - Hugh Derfel Hughes, 'Llawlyfr Carnedd Llewelyn' (1864) - astudiaethau cynnar a dylanwadol o hynafiaethau Dyffryn Ogwen (hefyd Hugh Derfel Hughes, 'Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid', 1866) a Llanfairfechan (Walter Bezant-Lowe 'The Heart of Northern Wales', 1912), llawlyfr i bysgotwyr (William Roberts, 'Llawlyfr y Pysgotwr' (1899)) a hanesion personol am fywyd fferm (Margaret Roberts 'Oes o Fyw ar y Mynydd', 1979) ac arferion ('Observations on the Snowdon Mountains' (1802) William Williams, yn ogystal â llyfrau ar lwybrau, natur a ffigurau diwylliannol yr ardal.

Yn draddodiadol, mae'r cymunedau chwarelyddol wedi rhoi pwyslais ar bwysigrwydd gwybodaeth, dysg a diwylliant. Mae'r capeli anghydfurfiol a'r Ysgolion Sul a gynhelir mewn llawer ohonynt wedi bod yn ganolfannau hanfodol i addysg ers y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif

ar bymtheg yng nghymunedau gwledig a diwydiannol yr ardal. Mae cysylltiadau chwedlonol a llên gwerin â'r dirwedd yn cynnwys bodau a chreaduriaid hudolus (Rhitta Fawr, Arthur, tylluan hynafol Cwm Cowlyd yn chwedl Culhwch ac Olwen yn y Mabinogi, a straeon amrywiol am y Tylwyth Teg direidus a drygionus) – gweler yr adroddiad llenyddiaeth ychwanegol).

Mae corff sylweddol o ysgrifennu teithio a thwristiaeth cynnar yn ymwneud â'r ardal, yn enwedig o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adroddiadau'n canolbwyntio'n gyffredinol ar rinweddau pictiwresg neu aruchel y dirwedd, ei nodweddion gwyllt neu ei harddwch ac yn cyflwyno golygfa o'r tu allan, mewn cyferbyniad â barn y bobl gynhenid am lenyddiaeth yr iaith Gymraeg. Mae stori Thomas Pennant o'i ymweliad â Chwm Pen-llafar yn y 1770au (lle mae'n disgrifio'r Ysgolion Duon fel 'y dibyn mwyaf erchyll y gall y meddwl ei greu') mewn cyferbyniad llwyr â 'Llawlyfr Carnedd Llewelyn' Hugh Derfel neu ffarwel hiraethus i Gwm Pen-llafar gan John T. Jôb yn ei gerdd 'Ffarwel i Eryri'. Mae George Borrow ('Wild Wales') yn anarferol yn ei ymwneud â phobl leol, traddodiadau a diwylliant, ond mae'n dal i fod yn ddarlun rhamantus.

Efallai mai'r gwahaniaeth mwyaf amlwg mewn gweledigaeth o'r dirwedd yw rhwng y profiad o dirwedd drwy fyw yno a thrwy waith a hamdden, yn enwedig mynydda, er bod hyn wedi dod yn rhan hollbwysig o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Daeth Helyg, bwthyn yn Nant y Benglog, yn fwthyn i'r Climber's Club yn 1925 a bu'n gartref i genhedlaeth arloesol o ddringwyr o ddechrau i ganol yr ugeinfed ganrif a sefydlodd lwybrau dringo newydd yn yr ardal (yn enwedig y Glyderau) a hyfforddi cyn mentro am yr Alpau a'r Himalaya. O ganol yr ugeinfed ganrif, mae mwy o bobl leol wedi dechrau dringo a mynydda a defnyddio'r mynyddoedd i hamddena ac mae nifer o bobl a aned ac a fagwyd yn yr ardal wedi sefydlu lwybrau newydd o'r safon uchaf a dod yn fynyddwyr rhyngwladol. Yn ddiweddar, mae Clwb Mynydda Cymru wedi adennill y genre o ysgrifennu am fynydda, gyda'i gyfrol

Datganiad o Arwyddocâd Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

hardd Copaon Cymru (2016) sy'n cynnwys chwe thaith gerdded yn y Carneddau, ac yn asio disgrifiadau o'r llwybrau gyda naratifau o dirwedd, diwylliant a threftadaeth.

I lawer o bobl, mae merlod lled-wyllt gwydn ac annibynnol y Carneddau yn eicon gwych o'r ardal a'i rhinweddau. Cydnabuwyd y Frân Goesgoch fel arwyddlun o'r ardal gan lawer o bobl yn ystod ein hymgyngoriadau, a dywedwyd wrthym yn yr 1950au fod categori Brân goesgoch yn sioe amaethyddol Dyffryn Ogwen, a'u bod yn cael eu cadw gan chwarelwyr yr ardal. Mae atgofion plentyndod o hel llus yn gyffredin ac roedd gwerthfawrogiad bron yn gyffredinol o ansawdd lle, natur ac yn yr ucheldiroedd uchel, unigedd a heddwch.

'Yr Helfa Fawr', sef hel defaid. Mae Ieuan Wyn yn myfyrio ar atgofion Syr Ifor Williams o gymryd rhan yn Yr Helfa Fawr gyda thaid y bardd.

Dywedodd Williams yn ei gyhoeddiad, I Ddifyr'r Amser, er nad oes neb yn gwybod o ble y daeth traddodiadau'r Helfa Fawr, maent yn cael eu parchu a'u dilyn hyd heddiw.

Yr Helfa Fawr

Uwch Tan y Garth mor fyw y buarthau,

A'r rhos anial yn ferw o synau;

Stŵr y breffu, y cyfarth a'r arthio,

A gwŷr y mynydd yn eu grym yno;

Ogleuon baw a gwlân ar yr awel,

A'r cnuf yn iach o'r cynefin uchel.

Mae eto swyn ddaw i'm tywys heno - i'r llethrau

A hen hafau nad oes mo'u hanghofio.

By Ieuan Wyn

Datganiad o Arwyddocâd Treftadaeth Ddiwylliannol y Carneddau

To survive they cut their flocks' ears
Hafod y Mynydd, Tyn y Gaer ...
to tell them apart
Brongoronwy, Careg y Gath ...
When the blood dried
the mist cleared on a new language
Canwair, Tori Blaen, Bachiad ...
strange geometries
bitten into leaves, scrolls, cave walls ...
Hollt, Grisiau, Cwliad ... –
the landscape's grave eloquence
Gareg Ddu, Sychnant, Gorwyr ...
preserved in a sheep's ear!

Gan Paul Henry



Cneifio yn Rowen, canol yr 20fed Ganrif (gyda diolch i Suryiah Evans)



PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP